Rhifyn 22
Gorffennaf 2017



# the index / y mynegai



Y cylchlythyr ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Oshi's World & KeyCreate t7
Hwyl yr Haf t8 - 9
Y Clwb Rhyngsynhwyraidd t12 - 13



# Mae'r haf ar y ffordd!

## Croeso i Rifyn 22 o gylchlythyr Y Mynegai.

**Rydym flwyddyn yn ddiweddarach ar ôl ymuno â Chaerdydd i gynhyrchu cylchlythyrau ar y cyd ar draws Caerdydd a'r Fro, ac mae'r rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy gydol yr haf a thu hwnt!**

Felly, beth sy'n newydd? Wel, rydym wedi bod yn brysur yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Mynegai gan gynnwys Diwrnod Hwyl Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro, Digwyddiadau Dechrau'n Deg yng Nghaerdydd a'r Fro, Fforwm Rhanbarthol Iechyd Plant, Dathliadau Wythnos y Gofalwyr a Digwyddiad Pontio Ysgol Y Deri.

Erbyn hyn mae gennym dros 500 o deuluoedd wedi cofrestru yn y Fro, ac mae dros 200 o deuluoedd wedi cofrestru yng Nghaerdydd.

Po fwyaf o deuluoedd sydd wedi'u cofrestru, y mwyaf clir yw'r darlun sydd gennym o anghenion plant a phobl ifanc yn yr ardal er mwyn cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, a gwella mynediad at wasanaethau a chymorth.



Ar y Digwyddiad Dathlu Dechrau'n Deg yn Nghaerdydd gyda Jason



Dawn mewn Digwyddiad Dathlu Gofalwyr Bro



Cadwch lygad allan am y poster i'r Mynegai yn eich ardal chi!

Peidiwch ag anghofio, os ydych yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n elwa o gofrestru ar gyfer Y Mynegai, gallant gael y ffurflen gofrestru ar-lein neu drwy gysylltu â'u Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol!

Mwynhewch y darllen!

*Julia Sky*

## Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd 029 2035 1700**
**mynegaianabledd@caerdydd.gov.uk**
**www.ggd-caerdydd.info**

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro 01446 704736**
**mynegaianabledd@bromorgannwg.gov.uk**
**www.bromorgannwg.gov.uk/ggd**

**Byddwch yn gweld logo Dewis Cymru drwy'r cyfan o'r cylchlythyr hwn ger gwasanaethau sydd ar gael ar y wefan. Canfyddwch fwy am Dewis Cymru ar dudalen 4.**


**Peidiwch ag anghofio ein tagio i mewn bostiadau yr ydych yn eu rhannu â'r teuluoedd eraill sydd wedi cofrestru gyda'r Mynegai!**

**@CardiffFIS**

**@ValeFIS**

**Ariennir Y Mynegai drwy Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru**

# Beth sydd ‘mlaen?



## Dydd Llun

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (gweler tudalen 8) **Dydd Llun (31 Gorffennaf - 28 Awst)**

Clwb Gwyliau Free Creative Choices (gweler tudalen 9) **Diwnodau’s wythnos (24 Gorfennaf - 1 Medi)**

Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays (gweler tudalen 9) **Diwnodau’s wythnos (24 Gorfennaf - 18 Awst)**

## Dydd Mawrth

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (gweler tudalen 8) **Dydd Mawrth (31 Gorffennaf - 28 Awst)**

Clwb Gwyliau Free Creative Choices (gweler tudalen 9) **Diwnodau’s wythnos (24 Gorfennaf - 1 Medi)**

Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays (gweler tudalen 9) **Diwnodau’s wythnos (24 Gorfennaf - 18 Awst)**

Clwb Cychod Pŵer Addasol y Fro (gweler tudalen 12) **Dydd Mawrth (Ebrill – Medi)**

Cynllun Haf Pro Motion (gweler tudalen 9) **Dydd Mawrth 25 Gorffennaf & 1 Awst**

## Dydd Mercher

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (gweler tudalen 8) **Dydd Mercher ym mis Awst**

Clwb Gwyliau Free Creative Choices (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 1 Medi)**

Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 18 Awst)**

Cynllun Haf Pro Motion (gweler tudalen 9) **Dydd Mercher 26 Gorffennaf & 2 Awst**

Grŵp Epilepsi Cymru Caerdydd (gweler tudalen 14) **Dydd Mercher 23ain Awst & Dydd Mercher 27ain Medi**

Clwb Beicio Addasol a Sky Riders y Fro (gweler tudalen 12) **Dydd Mercher (Ebrill – Medi)**

## Dydd Iau

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (gweler tudalen 8) **Dydd Iau ym mis Awst**

Clwb Gwyliau Free Creative Choices (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 1 Medi)**

Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 18 Awst)**

Cynllun Haf Pro Motion (gweler tudalen 9) **Dydd Iau 27 Gorffennaf**

Grŵp Epilepsi Cymru y Barri (gweler tudalen 14) **Dydd Iau 27ain Gorffennaf & Dydd Iau 28ain Medi**

Sesiynau Cefnogi Rhieni/Gofalwyr ADHD Caerdydd (gweler tudalen 10) **Bob pythefnos Dydd Iau**

## Dydd Gwener

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (gweler tudalen 8) **Dydd Gwener ym mis Awst**

Clwb Gwyliau Free Creative Choices (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 1 Medi)**

Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays (gweler tudalen 9) **Diwrnodau’r wythnos (24 Gorffennaf – 18 Awst)**

Clwb Beicio Addasol a Sky Riders y Fro (gweler tudalen 12) **Dydd Gwener (Ebrill – Medi)**

Sesiynau Cefnogi Rhieni/Gofalwyr ADHD Caerdydd (gweler tudalen 10) **Dydd Gwener olaf y mis**

Gweithdy Hyfforddiant Cysgu gydag ADHD Caerdydd a Scope (gweler tudalen 10) **Dydd Gwener 4 Awst**

Prynhawn Agored Clwb Ieuenctid Afasic Cymru (gweler tudalen 16) **Dydd Gwener 11 Awst**

## Dydd Sadwrn

Bore Coffi Dewch i Chwarae Oshi’s World (gweler tudalen 7) **Bob Dydd Sadwrn**

ADHD Caerdydd & Phoenix ABC, Bocsio i blant gydag anghenion arbennig (gweler tudalen 10) **Bob pythefnos Dydd Sadwrn**

Noson Codi Arian Maldodi i Fenywod (gweler tudalen 16) **Dydd Sadwrn 5 Awst**

# Dewis Cymru – Cael dewis a chymryd rheolaeth

www.Dewis.Cymru
Cael dewis a chymryd rheolaeth
www.Dewis.Wales
Have choice and take control

**Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn awr yn ymwybodol o wefan newydd Dewis Cymru.**

Dyma gyfeiriadur digyffelyb ar gyfer gwybodaeth ar-lein. Mae'n cynnwys gwasanaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynnig cymorth llesiant i chi, eich teulu a'ch ffrindiau, ac mae wedi ei gynllunio i'ch helpu i ddod o hyd i beth rydych ei angen heb fynd at weithiwr proffesiynol neu alw am help.

Mae'n golygu bod y wybodaeth i gyd mewn un lle, bydd yn osgoi dyblygu, ac mae'n fwy hygyrch. Yng Nghaerdydd a'r Fro, mae gennym dros 1,200 o wasanaethau ar Dewis, ac rydym wedi cytuno fel rhanbarth mai hwn yw'r lle i fynd am wybodaeth llesiant. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd a'r Fro wedi trosglwyddo eu 'Cyfarwyddiadur Gwasanaethau Cefnogaeth i Deuluoedd ' i Dewis. Felly, os ydych yn chwilio am gr□p cymorth i rieni plant sydd ag anghenion ychwanegol, gweithgareddau i blant a llawer mwy, yna mae Dewis Cymru ar eich cyfer chi.

Os nad yw eich gwasanaeth neu weithgaredd eisoes ar Dewis Cymru, mae'n hawdd iawn ychwanegu'r wybodaeth. Ewch i'r wefan a dewiswch 'Canllawiau Cofrestru ac Ychwanegu Gwybodaeth'

**www.dewis.cymru**

**Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech gael cymorth er mwyn ychwanegu eich gwasanaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm GGD:**

**Caerdydd: 029 2035 1700 / fis@caerdydd.gov.uk**
**Y Fro: 01446 704704 / fis@bromorgannwg.gov.uk**

# Asesiad Anghenion Gofalwr

**O 6 Ebrill 2016, nid ydych angen bellach fod yn darparu gofal 'rheolaidd a sylweddol' i fod â hawl i gael asesiad anghenion gofalwr.**

O dan y ddeddf newydd, os ydych angen cefnogaeth yn eich rôl fel gofalwr (neu os ydych yn debygol o wneud hynny yn y dyfodol), mae gan eich cyngor lleol ddyletswydd i gynnig asesiad anghenion gofalwr chi. Mae hyn yn berthnasol i ofalwyr o bob oed.

**I gael gwybod mwy am Asesiad Gofalwr, ymwelwch â:**

**www.dewis.cymru**

# Swyddog Cefnogi Gofalwyr Newydd Bro Morgannwg

**Mae'n bleser cyflwyno Melanie Friday a ymunodd â Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg ar 2 Mai fel ein Swyddog Cefnogi Gofalwyr newydd.**

Wedi ei lleoli'n bennaf yn y Tîm Iechyd ac Anabledd Plant, bydd yn gyfrifol am ofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, ac asesiadau rhiant-ofalwyr.

Bu Melanie yn gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ers dros 8 mlynedd, gan adeiladu ar ei chyfrifoldebau a gwybodaeth ym mhob un o'i rolau, yn fwyaf diweddar o fewn Iechyd Meddwl ac Anableddau.

Mae Melanie yn teimlo'n angerddol am ei swydd newydd, ar ôl bod yn ofalwr ei hun. Dywedodd ei bod hi'n falch iawn bod y rôl gofalu o'r diwedd yn cael mwy o'r gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu, ac mae hi'n falch o fod yn rhan o hynny!

**Asesiad Rhiant-Ofalwyr**

Fel rhiant-ofalwr plentyn sydd ag anghenion ychwanegol, mae gennych hawl i gael asesiad o'ch anghenion o ran help a chefnogaeth.

**I wneud cais am Asesiad Gofalwr yn uniongyrchol, cysylltwch â:**
**Caerdydd - Pwynt Mynediad Plant: 029 2053 6490**
**Y Fro - Tîm Derbyn Dyletswydd: 01446 725202**

# Disgyblion Ysgol Y Deri yn anelu at fod yn Hyfforddwyr Chwaraeon y Dyfodol

**Yn ddiweddar, cwblhaodd disgyblion o Ysgol y Deri Gwrs Trefnwyr Chwaraeon Pobl Ifanc Egnïol (AYP) gyda staff o Dîm Datblygu Chwaraeon Cyngor Bro Morgannwg.**

Trefnwyd y cwrs fel y gallai disgyblion Ysgol y Deri ddysgu sgiliau gwerthfawr er mwyn arwain sesiwn chwaraeon; bydd hyn yn cael ei roi ar waith gyda disgyblion o'r ysgol yn ystod y tymor, yn ogystal â chefnogi Cynlluniau Gwyliau'r Fro.

Y cwrs Trefnydd Chwaraeon AYP yw'r cam cyntaf ar y Llwybr Hyfforddi lle mae'r disgyblion yn dysgu sgiliau hanfodol sut i hyfforddi; yna gall pob disgybl ddefnyddio'r sgiliau hyn er mwyn targedu cyrsiau chwaraeon penodol.

Mynychodd y grŵp disgyblion nifer o sesiynau drwy gydol y tymor lle roeddent yn dysgu sut i ysgrifennu cynlluniau sesiwn, trefnu sesiynau cynhesu, yn ogystal â gweithgareddau sgiliau a sut i gychwyn gemau tîm yn ddiogel.

Ar ddiwedd y cwrs roedd bob disgybl wedi rhedeg elfen o sesiwn chwaraeon yn llwyddiannus. Hefyd cafwyd hunan-arfarniad i dynnu sylw at eu cryfderau a meysydd datblygu pellach.

Dywedodd Simon Jones, Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru, 'Roedd yn wych gweithio gyda disgyblion Ysgol y Deri. Y nod i bob disgybl yw defnyddio'r sgiliau y maent wedi'u dysgu yn rheolaidd er mwyn helpu gyda chwaraeon yn ystod a thu allan i amser ysgol. Rwy'n hyderus y gall y grŵp hwn o hyfforddwyr barhau ar y llwybr hyfforddi chwaraeon, a dod yn fodelau rôl ar gyfer disgyblion iau yn Ysgol Y Deri.'

**Petaech chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn hoffi cymryd rhan mewn hyfforddi chwaraeon, cysylltwch â Thîm Datblygu Chwaraeon y Fro: sljones@bromorgannwg.gov.uk / 01446 704793**



## Gwirfoddolwyr Symud Ymlaen yn Dda yn cael gwahoddiad i'r Senedd

**Bu gwirfoddolwyr Symud Ymlaen yn Dda yn y Senedd yn y digwyddiad "Derbyniad Elusennau Bach ond Hanfodol" a gafodd ei gynnal gan Jane Hutt AC a Sefydliad Banc Lloyds, arianwyr y Project Symud Ymlaen yn Dda.**

Cawsom ddiodydd a canapés a chyfarfod elusennau eraill a oedd yno.

Roedd Ymddiriedolwyr Banc Lloyds a'r Rheolwyr Grant i gyd yn falch iawn o'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'r Project Symud Ymlaen yn Dda. Tynnodd Jane Hutt sylw atom yn ei hanerchiad hyd yn oed!

Cawsom brynhawn bendigedig yn y Senedd ac ar ôl y digwyddiad, aethom allan am de hwyr i siarad am y prynhawn!

**Am ragor o wybodaeth am y Project Symud Ymlaen yn Dda, cysylltwch â: 01446 732 926 / movingonwell@gmail.com**



# Sut mae un elusen yn defnyddio technoleg gynorthwyol i drawsnewid bywydau



**Mae llawer ohonom yn dibynnu ar dechnoleg gynorthwyol bob dydd. O sbectol er mwyn ein helpu i weld yn well, hyd at gadeiriau olwyn trydan sy'n galluogi pobl i symud yn fwy rhydd.**

Mae un elusen yng Nghaerfaddon yn dylunio a datblygu cynhyrchion defnyddiol sy'n cwrdd ag anghenion pobl anabl o bob oed, nad ydynt yn gallu canfod yr hyn maent ei eisiau yn unman arall. Mae gan Designability dîm o ddylunwyr, peirianwyr a therapyddion galwedigaethol sy'n ymgynghori â phobl sy'n byw gyda chyflwr penodol a'u teuluoedd i weld beth y gallent wneud i helpu.

Maent fwyaf adnabyddus am eu Cynllun Benthyca Wizzybug, sy'n darparu cadeiriau olwyn Wizzybug wedi'u pweru ac sy'n hwyl i blant dan 5 oed, yn rhad ac am ddim. Ond maent hefyd yn y broses o ddylunio system seddi ar gyfer plant rhwng 2 - 5 oed sydd â pharlys yr ymennydd dystonic, i'w galluogi i deimlo'n fwy cyfforddus wrth iddynt brofi sbasmau corff llawn.



Mae Designability yn deall nad yw un ateb o reidrwydd yn addas i bawb. Nid yw 'un maint yn ffitio pawb' bob amser. Am y rheswm hwnnw, cynigiant wasanaeth cyfeirio pwrpasol, sy'n golygu y gallwch fynd atynt gyda phroblem yr ydych yn ei hwynebu a byddant yn edrych i weld os oes rhywbeth y gallant ei greu i'ch helpu.

**Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: 01225 824103 / www.designability.org.uk**
**Twitter: @DesignabilityUK**
**Facebook: 'Designability'**



Mae Alfie Porter-Smith o Ddinas Powys wrth ei fodd gyda'i Wizzybug o Designability, a bu hyd yn oed ar Newyddion ITV yn dangos ei olwynion newydd!

*"Cyn Wizzy, nid oedd ganddo annibyniaeth ac roedd yn teimlo ei fod yn colli gymaint.*

*Ar y diwrnod cyntaf yr aeth â'r Wizzybug i'r ysgol, roeddwn yn sefyll yn aros iddo ddod allan ar ddiwedd y dydd.*

*Pan welais ef yn ymddangos yn ei Wizzybug, gyda phlant yn cerdded wrth ei ymyl, dechreuais wylo'n hidl. Dros nos, roedd wedi dod y plentyn mwyaf poblogaidd yn yr ysgol."*

*- Fiona, mam Alfie*

**Gallwch weld y ffilm o Alfie a'i Wizzybug drwy chwilio am 'Wizzybug' ar Newyddion ITV Cymru. www.itv.com/news/wales**



# Oshi's World

**Mae Oshi's World yn rhedeg boreau chwarae a choffi cynhwysol am ddim ar gyfer teuluoedd â phlant sydd ag anghenion ychwanegol, anabledd neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Ysbrydolwyd Oshi's World gan deulu a ffrindiau Oshi, sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Rydym yn cynnig amgylchedd cyfeillgar lle gall plant chwarae a rhyngweithio neu ddim ond ymlacio'n braf yn yr ystafell synhwyraidd. Gall rhieni gael paned a sgwrs, neu ddim ond ymlacio - beth bynnag rydych ei angen, byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer.**





Bob wythnos yn Oshi's World, mae gennym gyfoeth o deganau a gemau a'n ystafell synhwyraidd ein hunain. Mae gennym gyfleusterau newid hygyrch sy'n cynnwys teclyn codi a bwrdd newid ar gyfer maint oedolion. Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau arbennig yn rheolaidd megis sesiynau cerdd rhyngweithiol Keycreate, torri gwallt plant tra'u bod yn y bore coffi, chwarae synhwyraidd gan Virginia Born, ac rydym yn gobeithio trefnu llawer mwy.

Rydym yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer plant a'u teuluoedd a bwriadwn gael barbeciw haf eleni - felly gwyliwch y gofod hwn!

**Lle:** Neuadd Gymunedol Byrd Crescent, Penarth CF64 3QU

**Pryd:** Bob Dydd Sadwrn, 10am – 1pm

**Dewch i ymuno â ni, byddem wrth ein bodd eich gweld!**

**Croeso i frodyr a chwiorydd, a ffrindiau**



**Cadwch yn gyfredol gyda'r hyn sy'n digwydd ar Facebook a Twitter.**

**oshisworld**

**@oshis_world**



# KeyCreate

**Mae KeyCreate wedi bod yn cynnal gweithdai creadigol pwrpasol i gymuned anabl De Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gan ddefnyddio elfennau cerddorol, drama ac adrodd straeon, mae KeyCreate yn darparu gweithdai cwbl hygyrch, hwyliog ac addysgol i bob oed a gallu.**



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mwynhaodd nifer o leoliadau ein gweithdai gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau AAA mewn ysgolion prif ffrwd; sefydliadau fel Sense Cymru; ac elusennau fel Oshi's World, Tŷ Hafan, Sparkle Appeal, Shine, a Follow Your Dreams. Rydym wedi cynnal gweithdai â thema ar gyfer canolfannau dydd, a gweithdai pwrpasol ar gyfer arbenigwyr celfyddydol Chapter Arts a Theatr Hijinx. Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant i Gynorthwywyr Addysgu a Dysgu AAA. Rydym hyd yn oed wedi mentro i fyd partïon pen-blwydd i blant fel darparwr adloniant amgen, ac wedi mynychu gwyliau a digwyddiadau eraill.



Os ydych yn chwilio am rywbeth gwahanol neu egnïol yn ystod tymor yr haf hwn, beth am roi cynnig ar KeyCreate?

**I archebu, neu ddim ond i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dave Morris 07810018165 / davebobmorris@hotmail.com**

**keycreatewales**



# Beth sydd ymla

## Beth sydd ymlaen yn y Fro i deuluoedd yr Haf hwn?

**Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro wedi cynhyrchu rhaglen o bob peth sy'n digwydd yn y Fro i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol.**

Gallwch ganfod mwy am:

- Ddigwyddiadau teuluol
- Cynlluniau chwarae gwyliau
- Gweithgareddau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden
- A llawer mwy...

**Ymwelwch â:**
**www.bromorgannwg.gov.uk/fis**
**Ffôn: 01446 704704**
**E-bost: fis@valeofglamorgan.gov.uk**
**Cadwch yn gyfredol drwy hoffi ein tudalen Facebook 'Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro'**

## Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf Bro Morgannwg

### Cynllun Chwarae i'r rhai 4 - 11 oed

**Pryd:** Dydd Mercher, Dydd Iau a Dydd Gwener ym mis Awst, 10.05am - 12am*

**Lle:** Ysgol Y Deri, Heol Sili, Penarth, CF64 2TP

*Sylwer: Bydd cofrestru yn digwydd rhwng 9.45am - 10.05am. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddiweddaru 'Llyfrau defnyddiol', yn cyfarfod staff, ac wedi unrhyw ymholiadau atebwyd rhieni.

### Cynllun Ieuenctid i bobl ifanc 12-18 oed

**Pryd:** Dydd Llun a Dydd Mawrth (31 Gorffennaf – 29 Awst), 10am – 3pm

**Lle:** Ysgol Y Deri, Sully Road, Penarth, CF64 2TP

* Sylwer: Bydd tâl am blant sy'n aros ar y safle am ginio. Nid yw hyn yn cynnwys cinio, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu pecyn cinio a diodydd.

### Pethau i'w cofio:

- Gall y ddau gynllun gynnig cefnogaeth 1:1, cymorth meddygol a gofal personol lle bo angen.

### Ydych chi erioed wedi meddwl beth mae eich plentyn yn ei wneud yn y cynllun chwarae?

Yr haf yma, mae teuluoedd plant mewn Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf Bro Morgannwg yn cael eu gwahodd i ymuno yn yr hwyl o 12pm.

Bydd rhieni / gofalwyr a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahodd i gael cinio ar y safle ac i gymryd rhan yn y prynhawniau o hwyl i'r teulu.

Bydd y sesiwn yn cynnwys gofal anifeiliaid, iechyd a maeth, a hyd yn oed picnic yr eirth.

### Prynhawniau o Hwyl i'r Teulu yn y Cynllun Chwarae

**Pryd:** Dydd Mercher, Dydd Iau a Dydd Gwener ym mis Awst, Cinio*: 12pm - 1pm

**Sesiwn y prynhawn hwyl i'r teulu:** 1pm - 3pm

**Lle:** Ysgol Y Deri, Sully Road, Penarth, CF64 2TP

*Sylwer: Nid yw hyn yn cynnwys cinio, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu pecyn cinio a diodydd.

**Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle i'ch plentyn, cysylltwch â Joanne Jones, Swyddog Datblygu Chwarae ar 01446 704 809 / datblyguchwarae@bromorgannwg.gov.uk**

# en yr Haf hwn?

## Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol Cathays i bobl ifanc 11-25 oed

**Mae Darpariaeth Ieuenctid Cynhwysol (IYP) yn darparu clybiau ieuenctid ar gyfer plant ac oedolion ifanc sy'n darparu'n benodol ar gyfer y rhai sydd ag anableddau dysgu a'u gwirfoddolwyr grŵp cyfoedion. Caiff Aelodau'r cyfle i wneud ffrindiau newydd a chymryd rhan gydag amrywiaeth o weithgareddau hwyliog, gan gynnwys gemau a cherddoriaeth.**

**Pryd:** Diwrnodau'r wythnos, 10am – 1pm & 1pm – 4pm (Dydd Llun 24 Gorffennaf - Dydd Gwener 18 Awst)

**Lle:** Project Ieuenctid a Chymunedol Cathays a'r Canol, 36 – 38 Cathays Terrace, Cathays, Caerdydd, CF24 4HX

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan Ieuenctid a Chymunedol Cathays: 029 2037 3144 / email@cathays.org.uk**

## Cynllun Haf Pro Motion i bobl ifanc 12+ oed



**Cynllun dawns ar gyfer pobl ifanc dan anfantais ac anabl i archwilio eu barn trwy ddefnyddio ffilm a symudiad.**

**Pryd:** Dydd Mawrth 25 – Dydd Iau 27 Gorffennaf, 1.30pm – 4.30pm
Dydd Mawrth 1 & Dydd Mercher 2 Awst, 1.30pm – 4.30pm

**Lle:** YMCA Barri, Court Road, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4EE

**I archebu lle neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â 07725 038 778 / info@motioncontroldance.com**

## Clwb Gwyliau Ysgol Creative Choices Vision 21

**Mae Vision 21 yn cyflwyno Clwb Gwyliau Ysgol am ddim i bobl ifanc rhwng 14-18 oed sydd ag anghenion dysgu.**



Manteisiwch ar ein gweithdai AM DDIM a chofrestrwch heddiw!

Wedi'i ariannu gan Blant mewn Angen, mae'r clwb gwyliau ysgol yn ffocysu ar weithgareddau creadigol, rhyngweithio ac adeiladu sgiliau cymdeithasol.

**Pryd:** Diwrnodau'r wythnos, 9.30am – 3pm (Dydd Llun 24 Gorffennaf – Dydd Gwener 1 Medi)

**Lleoliad:** Amrywiol (Caerdydd)

**Pwy:** pobl ifanc 14-18 oed gydag anhawster dysgu

**Am ragor o wybodaeth, gweithgareddau ar gyfer y cyfnod gwyliau neu i gofrestru, cysylltwch â Sarah Glazier:**
**029 2062 1194 / sarah.glazier@v21.org.uk**

BBC Plant Mewn Angen Children in Need

VISION Twenty One Cyfle Cymru

## Gweithdai Haf Vision 21

**A hoffech chi ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a gweld beth yw Vision 21?**

Ymunwch â ni ym misoedd Gorffennaf ac Awst am un o'n projectau:

• Crefftau Creadgiol • Arlwyo • Garddwriaeth

• Sgiliau bywyd • Gwaith coed • TGCh

Pris gostyngol o £25 y dydd. Cofrestrwch heddiw! Gweler gwefan Vision 21 am fanylion www.v21.org.uk

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Bond: admin@v21.org.uk / 029 2062 1194**




## Sesiynau Cefnogi Rhieni a Gofalwyr ADHD Caerdydd

**A fyddech yn elwa o gefnogaeth gan rieni/gofalwyr eraill?**

Dewch i ymuno â ni am baned, cacen a sgwrs!

Bob pythefnos
**Pryd:** Dydd Iau, 6.00pm - 8.00pm

**Lle:** Ants Inya Pants, Rhymney River Bridge Road, Caerdydd, CF23 9AF

Yn fisol
**Pryd:** Dydd Gwener olaf y mis, 2.00pm - 3.00pm

**Lle:** Llyrgell Rhydypennau, Llandennis Road, Caerdydd, CF23 6EG

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag ADHD Caerdydd: info@adhdcardiff.co.uk**

**ADHD Cardiff / @ADHDCardiff1**

## ADHD Caerdydd & Chlwb Bocsio Amatur Phoenix

**Mae Clwb Bocsio Amatur Phoenix yn gweithio mewn partneriaeth ag ADHD Caerdydd i redeg sesiynau bocsio ar gyfer plant sydd ag ADHD, awtistiaeth neu anawsterau dysgu.**

Dengys astudiaethau nad yw plant sydd â chyflyrau niwroddatblygol yn aml yn ffynnu mewn chwaraeon tîm, maent yn elwa o reoli dysgu a dilyn cyfarwyddiadau mewn amgylchedd rheoledig tawel.

Cynhelir y sesiynau bob pythefnos yn Llanrhymni am ddim ond £1.50 y plentyn. Darperir yr holl offer a dŵr.

**Lle:** Clwb Bocsio Amatur Phoenix Llanrhymni, Ball Lane, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 4JS

**Pryd:** Bob pythefnos Dydd Sadwrn, 9am – 10am (6-9 oed) & 10am – 11am (10-16 oed)

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag ADHD Caerdydd neu Phoenix ABC Llanrhymni**
**ADHD Caerdydd: info@adhdcardiff.co.uk**
**Phoenix ABC Llanrhymni: 07899 712 561 / boxingtony88@gmail.com**

## Gweithdy Hyfforddiant Cysgu gydag ADHD Caerdydd a Scope

**A oes gan eich plentyn broblemau hunan-setlo ac aros ynghwsg?**

Bydd hyfforddiant Scope gyda Paul Sawyer yn darparu canllaw i hyfforddiant cysgu.

Bydd yr hyfforddiant yn gyfle i gwrdd â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ac i rannu awgrymiadau a chyngor.

**Pryd:** Dydd Gwener 4 Awst, 10am – 2pm

Mae'r hyfforddiant am ddim a darperir cinio. Rhaid archebu lle.

**I archebu neu am ragor o wybodaeth cysylltwch ag ADHD Caerdydd:**

**info@adhdcardiff.co.uk**

## Project Face 2 Face Scope

**Mae Scope Face 2 Face yn broject a ariennir gan y loteri sy'n ceisio helpu rhieni a theuluoedd ar hyd a lled Caerdydd a Bro Morgannwg sydd â phlentyn neu blant gydag anabledd neu anghenion ychwanegol.**

Rydym yn cynnig cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth o bob math, gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth rhad ac am ddim i rieni fel Grymuso Rhieni neu Gweithdai Hyfforddi Cysgu.

Rydym yn helpu rhieni unigol, yn ogystal â grwpiau, a byddwn yn gefn i rieni â phlentyn sydd newydd dderbyn diagnosis, neu sydd â phlant a phobl ifanc hyd at 21 oed.

Cynigiwn gymorth i'r teulu cyfan gan gynnwys brodyr a chwiorydd, mewn unrhyw ffordd y gallwn. Rwyf yn y broses o drefnu Rhwydwaith Gwirfoddolwyr i gefnogi rhieni plant sydd ag anghenion ac anableddau ychwanegol yn Ysbyty Plant Arch Noa.

Rydym bob amser yn chwilio am deuluoedd newydd, ac yn fuan gobeithiwn drefnu hyfforddiant Cyfeillio Gwirfoddol i rieni. Bydd hyn yn rhoi hyfforddiant i rieni allu cynnig cymorth a chefnogaeth i rieni eraill yn yr un sefyllfa.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'n grŵp, cysylltwch â Paul Sawyer:**

**07436 588 522 / paul.sawyer@scope.org.uk**

# Astudiaeth Darllen a Deall Cymdeithasol Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru

**A hoffech chi i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil?**



Mae Zoe Williams yn fyfyriwr PhD ym Mhrifysgol Caerdydd yng Nghanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru. Mae gan Zoe ddiddordeb mewn edrych ar y gorgyffwrdd rhwng ASD ac ADHD yn ystod plentyndod.

Weithiau ymddengys bod plant sydd ag ASD ac ADHD yn cael anawsterau penodol gyda darllen a deall, na ellir eu hegluro'n llawn gan anawsterau darllen a iaith eraill.

Canolbwyntia ymchwil Zoe ar p'un a yw'r anawsterau cymdeithasol a brofir gan blant ag ASD ac ADHD yn arwain at sgiliau darllen diffygiol, yn enwedig o ran darllen a deall.

**Pwy?**

Pobl ifanc 11 – 17 oed gyda diagnosis o Awtistiaeth/ Syndrom Asperger neu ADHD.

**Beth fydd yr ymchwil yn ei gynnwys?**

Mae 5 o weithgareddau i gyd: 3 tasg cyfrifiadur, tasg IQ, a gweithgaredd darllen byr. Bydd hefyd asesiad ADOS sy'n edrych ar nodweddion o Awtistiaeth ac sy'n cynnwys gemau a chwestiynau.

Mae'r tasgau cyfrifiadurol yn golygu edrych ar luniau o wynebau a nodi'r emosiynau ddangosir. Bydd cyfranogwyr hefyd yn gwylio cartwnau a chlipiau ffilm Harry Potter, ac yna gofynnir iddynt ddisgrifio beth sy'n digwydd, a beth mae'r cymeriadau yn ei deimlo.

Hefyd gofynnir i rieni/gofalwyr gwblhau holiadur byr.

**Beth gewch chi am gymryd rhan?**

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael taleb £5 yr un am gymryd rhan yn yr ymchwil.

Hefyd ad-delir i chi gost teithio i'r ganolfan.

**Lle?**

Canolfan Gwyddoniaeth Datblygiadol Dynol, Prifysgol Caerdydd, Plas-y-Parc, Cathays, Caerdydd, CF10 3AT

**Pryd?**

Gellir cynnal yr ymchwil ar ddiwrnodau'r wythnos, yn ogystal â gyda'r nosau ac ar benwythnosau.

**Diddordeb?**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Zoe Williams**
**williamszl2@cardiff.ac.uk / 029 2087 0355**

# Barnardo's Cymru

**Grwpiau rhyw a pherthnasoedd i bobl ifanc 14-25 oed gyda diagnosis ADHD (Caerdydd a Bro Morgannwg)**

Bydd y rhaglen 6 wythnos hon ar gyfer pobl ifanc yn canolbwyntio ar faterion llesiant, cyngor a chanllawiau ar iechyd rhywiol, aros yn ddiogel ar-lein a pherthnasoedd iach.

**Cysylltwch â Chanolfan Teulu Barnardo's Trelái: helen.thompson2@barnardos.org.uk / fflur.angharad@barnardos.org.uk**

**Sgiliau Byw'n Annibynnol i bobl ifanc 14-18 oed (Bro Morgannwg)**

Mae'r rhaglen 10 wythnos hon yn canolbwyntio ar faterion fel siopa, byw yn iach, tasgau domestig, rheoli emosiynau, rheoli arian, bwlio a chyfeillgarwch.

Bydd y grŵp Sgiliau Byw'n Annibynnol nesaf yn cychwyn ar Ddydd Llun 11 Medi am 10 wythnos, i bobl ifanc 14-18 oed sy'n byw yn y Fro.

**Cysylltwch â Chanolfan Teulu Barnardo's Trelái: 029 20577074 / helen.thompson2@barnardos.org.uk**

# Y Clwb Rhyngsynhwyraidd – Offer a Chyfleusterau Addasol ac Arbenigol

## Clwb y Sky Riders Club a Beicio Addasol y Fro

**Mae 'Team Sky Frog Bikes' ar gael i blant gydag Awtistiaeth 4-12 oed.**

Mae plant wrth eu bodd yn beicio, mae'n gyflym ac yn hwyl ac yn rhoi rhyddid ac annibyniaeth iddynt fynd o gwmpas. Mae dysgu beicio yn gamp a fydd yn helpu i adeiladu hyder ac ymdeimlad naturiol o antur.




Dowch yn 'farchog awyr', a mwynhau'r rhyddid o feicio mewn amgylchedd diogel.





**Mae gan Feicio Addasol y Fro nifer o feiciau arbenigol, beiciau tair olwyn, tandems, ayb. i alluogi i blant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau neu anghenion ychwanegol gael mynediad a mwynhau'r cyffro o feicio.**

**Pryd:** Dydd Mercher a dydd Gwener, 1pm – 5pm (Ebrill – Medi)

**Lle:** Stadiwm Parc Jenner, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 1NJ

Cyfraniad awgrymedig £2.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Clwb Rhyngsynhwyraidd 01446 420 533/ chayes89@btinternet.com**

Vale Adaptive Cycling Club

## Clwb Cychod Pŵer Addasol y Fro



**Ahoi! Dewch am dro o amgylch Glannau'r Barri.**

Mae'r cwch addasol ar gael i bob person anabl. Mae'r cwch yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn ogystal â'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig.

**Pryd:** Dydd Mawrth o 10.30am – 2.30pm (Ebrill – Medi)

**Lle:** Canolfan Gweithgareddau Dŵr Cymunedol y Barri, Mole 1, Dociau'r Barri, CF63 4BE

Cyfraniad awgrymedig £2.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Clwb Rhyngsynhwyraidd 01446 420 533 / chayes89@btinternet.com**

## Ystafell Aml-Synhwyraidd Ryngweithiol



**Mwynhewch brofiad synhwyraidd gwych!**

Yn yr ystafell synhwyraidd, ceir yr offer synhwyraidd diweddaraf i ysgogi cyfleoedd datblygu i blant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau ac anghenion ychwanegol.



**Pryd:** Dydd Llun – Dydd Gwener o 10am – 4pm, Dydd Sadwrn & Dydd Sul o 1pm – 4pm

**Lle:** 33 Laleston Close, Barri, CF63 1TZ

Cyfraniad awgrymedig £5

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Clwb Rhyngsynhwyraidd 01446 420 533 / chayes89@btinternet.com**

**Yn darparu offer a chyfleusterau addasol ac arbenigol i bobl anabl ym Mro Morgannwg, gan eu galluogi i gael mynediad i weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y gymuned.**

# Y Clwb Rhyngsynhwyraidd hefyd yn darparu:

## Cadeiriau Olwyn Traeth yn Ynys y Barri



**Mae Cadeiriau Olwyn Traeth, sy'n addas ar gyfer bob math o dir, ar gael yn Ynys y Barri, gan roi cyfle i fwy o ymwelwyr fynd ar y tywod ym Mae Whitmore.**

Darparwyd y Cadeiriau Olwyn Traeth gan y Clwb Rhyngsynhwyraidd, a gellir eu gwthio dros dywod heb iddynt suddo, oherwydd eu holwynion llydan a dyluniad unigryw.

Mae tair cadair ar gael i'w benthyg, ac maent yn rhad ac am ddim i'w defnyddio.

Gellir cael y Cadeiriau Olwyn Traeth o'r cytiau traeth ar y promenâd Dwyreiniol.

**Cysylltwch â Thîm Twristiaeth y Fro am ragor o wybodaeth:**
**twristiaeth@bromorgannwg.gov.uk /**
**01446 704867**

## Cadeiriau Olwyn Ymsuddol ym Mhwll Rhyngwladol Caerdydd



**Gellir defnyddio'r Cadeiriau Olwyn Ymsuddol yn y pyllau nofio ar adegau agor.**

**Lle:** Pwll Rhyngwladol Caerdydd, Olympian Drive, Caerdydd, CF11 0JS

**Cysylltwch â Phwll Rhyngwladol Caerdydd am ragor o wybodaeth:**
**029 2072 9090 / www.leisurecentre.com/cardiff-international-pool**

## Y Clwb Rhyngsynhwyraidd

**Elusen fechan yw'r Clwb Rhyngsynhwyraidd ac rydym yn dibynnu ar gyfraniadau, grantiau a chodi arian i gyllido ein projectau; byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw help neu gyfraniad.**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Cliff Hayes 01446 420 533/ chayes89@btinternet.com**

# Epilepsi Cymru

**Rydym yn bodoli i wella bywydau pawb yng Nghymru yr effeithir arnynt gan epilepsi.**

Mae ein rhwydwaith o grwpiau o gwmpas Cymru yn tyfu drwy'r amser ac yn rhoi cyfle gwych i bobl rannu profiadau a chefnogi ei gilydd.

Epilepsi Cymru yw'r sefydliad epilepsi mwyaf blaenllaw yng Nghymru ac mae'n bodoli i wella bywydau pawb yr effeithir arnynt gan y cyflwr.



**Coffi a Sgwrs:**
Grwpiau cymorth yn eich ardal chi, ymunwch â ni am sgwrs, i gael cyngor, neu dim ond i gael paned!

**Grŵp y Barri**
Dydd Iau 27 Gorffennaf & Dydd Iau 28 Medi, 10.30am – 12pm
Siop Iechyd Caerdydd a'r Fro, 38 Heol Holton, Y Barri

**Grŵp Caerdydd**
Dydd Mercher 23 Awst & Dydd Mercher 27 Medi, 10.30am – 12pm

Caffi Next, 82 – 88 Heol-y-Frenhines, Caerdydd

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lesley: Lesley@epilepsy.wales / 07710 395 070**

**Epilepsy Wales**

**@epilepsywales**

## Dysgwyr Ysbrydoledig

**Dysgwyr Ysbrydoledig yw athrawon arbenigol profiadol ar anghenion addysgol arbennig. Rydym yn gymwys i roi asesiad, cyngor, cyfeirio addysgu a monitro disgyblion ag anawsterau dysgu penodol ac anghenion dysgu ychwanegol ar draws pob cyfnod allweddol. Rydym yn brofiadol wrth hyfforddi athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn amrywiaeth o ymyriadau a dulliau ardystiedig ac achrededig.**

Yn ein canolfan ddysgu yn 161 Heol Holton, gallwn gynnig ymgynghoriad cychwynnol i deuluoedd lle rydym yn ceisio sefydlu achosion pryder ynghylch gwahaniaeth datblygiad a dysgu eich plentyn. Yn ychwanegol at hyn, gallwn gynnig ystod o asesiadau ac adroddiadau manwl mewn meysydd datblygiadol penodol: iaith a lleferydd, dyslecsia, llythrennedd, rhifedd, ac anawsterau dysgu cyffredinol. Gallwn hefyd gynnig cyngor a chefnogaeth o ran ADHD, ASD, DCD a Syndrom Irlene.

Ein taliadau yn amrywio. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Buom yn brysur yn cynnal boreau coffi mewn ysgolion ac yn ein Canolfan Dysgu Ysbrydoledig. Rhedwyd cwrs Dyslecsia wythnosol llwyddiannus i rieni; roedd rhieni yn ei gael yn ddefnyddiol gan ei fod yn darparu strategaethau a chyngor ymarferol i gefnogi eu plentyn yn y cartref.

Rydym yn parhau i gefnogi dysgwyr drwy asesu, cefnogi a chynnal ymgynghoriadau sy'n nodi camau gweithredu a chyngor i'ch cefnogi chi a'ch plentyn.



Cadwch olwg am wybodaeth sydd ar y gweill ynglŷn â'n gweithgareddau Ysgol Haf, gan gynnwys ymyrraeth Lego.

**Y Ganolfan Ddysgu Ysbrydoledig, 161 Heol Holton, Barri, CF63 4HP**
**07706 415651 /**
**hello@inspired-learners.co.uk**

# Elusen Arch Noa

**Sefydlwyd elusen Arch Noa yn 2000 fel apêl i adeiladu ysbyty plant i Gymru.**

Dwy flynedd ar bymtheg yn ddiweddarach, a chyda dros £20 miliwn wedi'i godi, mae'r ysbyty nawr yn trin mwy na 73,000 o blant y flwyddyn a diolch i raddau helaeth i gefnogwyr yr elusen, mae gan yr ysbyty gyfarpar a chyfleusterau o'r radd flaenaf. Heddiw mae'r elusen yn gweithio law yn llaw â'r GIG fel y gall yr ysbyty barhau i ddarparu'r gofal gorau bosibl ar gyfer plant a'u teuluoedd.  Mae'r elusen hefyd yn ariannu gwasanaethau cymorth i deuluoedd, fel y tîm arbenigol chwarae, sy'n helpu plant i fod yn blant er gwaethaf yr anawsterau y maent yn eu hwynebu.

Ar hyn o bryd mae'r elusen yn rhedeg apêl i godi arian ar gyfer uned newydd-anedig newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r Apêl Bywydau Bach yn anelu at godi £1 filiwn i helpu i ariannu offer achub bywyd a chyfleusterau i rieni ar gyfer yr uned, sydd ar hyn o bryd yn trin tua 560 o fabanod cynamserol a babanod difrifol wael bob blwyddyn.



Mae nifer o ffyrdd o gefnogi gwaith elusen Arch Noa, o redeg marathon i gynnal gwerthiant cynnyrch pobi. Mae'r sefydliad hefyd wedi lansio loteri sy'n rhoi cyfle i ennill hyd at £25,000 yr wythnos tra'n cefnogi ysbyty plant Cymru.

**Am ragor o wybodaeth am y loteri, neu am syniadau eraill sut i gymryd rhan, ewch i www.noahsarkcharity.org**

# "Project Gofal Cymdeithasol Ymgysylltu Mwy"

**Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar y "Project Gofal Cymdeithasol Ymgysylltu Mwy"**

Bydd y Project hwn yn helpu plant a phobl ifanc anabl i deimlo'n fwy hyderus ac yn fwy gwybodus am eu hawliau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd y project yn darparu gweithdai ar gyfer pobl ifanc ar gyfranogiad a phwysigrwydd erthygl 12 o'r CCUHP, 'Parchu barn y plentyn.'

Mae'r project yn anelu at ddatblygu pecyn cymorth mewn partneriaeth â phobl ifanc anabl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.  Bydd y pecyn cymorth yn helpu plant a phobl ifanc eraill sy'n cael mynediad at ofal cymdeithasol ar draws Cymru.

Caiff pobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai, hyfforddiant ar eu hawliau, cyfle i gael dweud eu dweud, gall rhai pobl ifanc gael eu datblygu fel hyfforddwyr, cyfarfod a gwneud ffrindiau newydd a helpu i wneud y pecyn cymorth yn hwyliog, creadigol a hygyrch.

Mae'n broject tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n edrych ar gefnogi iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal, plant anabl a phobl ifanc a gofalwyr carennydd.

Bydd y project yn gweithio gyda phobl ifanc i roi'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i helpu plant anabl eraill, ac i hyfforddi gweithwyr proffesiynol ynglŷn â chyfranogiad.

Cynhaliwyd rhai gweithdai gyda phobl ifanc ar lesiant a beth mae'n ei olygu i bobl ifanc, beth yw gofal cymdeithasol, beth yw asesiad. Siaradodd y bobl ifanc am brofiadau personol o ofal cymdeithasol, a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu rhag cymryd rhan mewn asesiadau.

**Am ragor o wybodaeth, neu i gymryd rhan, cysylltwch â Danni Richards, Swyddog Datblygu Plant a Phobl Ifanc Anabl: danni.richards@childreninnwales.org.uk / 029 2034 2434**

# Ymlaciwch yn Braf yn ein Noson Codi Arian Maldodi i Fenywod

**Estynnir gwahoddiad i chi ddod i Noson Maldodi i Fenywod, i godi arian i agor cyfleuster chwarae i blant ag anableddau ac anghenion ychwanegol.**

**Lle:** The Kymin, Beach Road, Penarth, Bro Morgannwg, CF64 1JX

**Pryd:** Dydd Sadwrn 5 Awst, 6pm – 9pm

Mae tocynnau yn £20 yr un, a rhaid eu prynu ymlaen llaw. Mae'r pris yn cynnwys o leiaf ddwy driniaeth*, gwydriad o brosecco wrth i chi gyrraedd, lluniaeth ysgafn, cerddoriaeth fyw gan Caroline Venter, a gweithgaredd "gwnewch un eich hun".

Hefyd ceir stondinau crefftau lleol, raffl ac arwerthiant distaw.

Mae'n ofynnol archebu triniaethau wrth i chi archebu lle, ac mae'r dewis o driniaethau yn cynnwys: lliw ewinedd gel, cwyro aeliau, tylino pen, coluro, rhoi eich gwallt i fyny, tylino dwylo, tylino traed, a thriniaeth ymlacio.



**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Leo: 07973 342 234 / ljs_dmj@hotmail.co.uk**

**I gael gwybod mwy am genhadaeth Cloud 9 Play i agor canolfan weithgareddau chwarae heb ei hail, ewch i:**

**ljsdmj.wixsite.com/cloudnine**

**Cloud9Play**

# Prynhawn Agored Clwb Ieuenctid Afasic Cymru

**Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN).**

Rydym yn cynnal prynhawn agored ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 - 17 oed sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, a all fod â diddordeb mewn ymuno â'n clwb wythnosol.

A ydych yn symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi?

A oes gennych anhawster siarad ag eraill a gwneud ffrindiau?

Gall symud i fyny i'r ysgol uwchradd fod yn brofiad brawychus iawn i lawer o bobl ifanc - nid ydych ar eich pen eich hun!

Diddordeb?



Dewch draw i gwrdd â staff ac aelodau presennol y clwb ieuenctid i weld os yw'r clwb yn addas i chi!

**Pryd:** Dydd Gwener 11 Awst, 1.30pm – 3.30pm

**Lle:** The Adventure, Circle Way East, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PD

Mae Clwb Ieuenctid Ice Breakers Caerdydd yn rhedeg ar Ddydd Iau 6pm – 8pm yn The Adventure

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jo Richards**
**jo@afasiccymru.org.uk / 07922 188 009**
**www.afasiccymru.org.uk**

Ymwadiad

Nid yw mwyafrif y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr yma'n cael eu rheoli na'u rhedeg gan Gyngor Dinas Caerdydd na Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r cylchlythyr wedi cael ei lunio mewn ymdrech i'ch helpu chi i gysylltu â gwasanaethau. Ni ellir dal Cyngor Dinas Caerdydd na Chyngor Bro Morgannwg yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliad allanol a enwir yn y cylchlythyr yma ac ni ellir eu dal yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir gan unrhyw wybodaeth anghywir yn y cylchlythyr yma, nac am weithredoedd unrhyw rai o'r sefydliadau allanol a restrir.

Nid yw rhestru sefydliad yn y cylchlythyr yma'n awgrymu bod Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo'r sefydliad ac nid yw absenoldeb unrhyw sefydliad yn awgrymu nad ydym yn ei gefnogi.